CYNGOR TREF LLANGEFNI

COFNODION Cyfarfod Llawn Cyngor Tref Llangefni, a gynhaliwyd **Nos Lun 9fed o Chwefror 2026** am 6.30y.h. yn Ystafell Pwyllgorau, Y Llys, Ffordd Glanhwfa, Llangefni.

YN BRESENNOL :
Cyng. J. Egryn Lewis - Cadeirydd

Cyng. Margaret A. Thomas
Cyng. Non Roberts-Smith
Cyng. Geraint Bebb
Cyng. Arwel Môn Hughes
Cyng. Terry Jones
Cyng. Henry Jones
Cyng. Alwyn Parry

HEFYD YN BRESENNOL :
Ms. Linda Powell — Swyddog Gweinyddol
Cynghorydd Sir :
Cyng. Nicola Roberts
Cyng. Geraint Bebb
Cyng. Dylan Rees
Cyfarfod yn cael ei Recordio

Cadeirydd yn croesawu'r Aelodau i'r Cyfarfod Llawn

25/223 **Ymddiheuriadau :** Cyng. Non W. Parry, Cyng. J. Huw Owen
Cynghorydd Sir : Cyng. Non Dafydd.

25/224 **Datganiad o Ddiddordeb :** Cyng. Alwyn Parry – Eitem 25/235.2 : Cynllun Gwelliannau Seilwaith Bws Arfaethedig, Stad Ddiwydiannol, Llangefni.

25/225 **Heddlu Gogledd Cymru : Dim Cynrychiolydd**
1 **Stryd yr Eglwys, Llangefni -** Cadeirydd yn dwyn sylw at e-bost a dderbyniwyd gan breswylydd, wedi'i rannu gyda'r Aelodau, yn ymwneud a diffyg cydymffurfio a'r cyfyngiad cyflymder 20mya yn ardal Stryd yr Eglwys. Yn dilyn trafodaeth, Cyng. Geraint Bebb yn awgrymu mai mater i'r Heddlu yw hwn, a cytunwyd i anfon yr e-bost ymlaen at yr Heddlu. **PENDERFYNWYD** derbyn yr uchod.

25/226 **Datganiad Derbyn Swydd - Ward Cyngar :** Arwyddwyd y Datganiad gan Mrs Non Roberts-Smith a'r Cadeirydd, Cyng. J. Egryn Lewis. Derbyniwyd Cyng. Roberts-Smith Pecyn Llaw Lyfr Cynghorwyr.

25/227 **I Dderbyn Cywirdeb Cofnodion Cyfarfod Llawn 19.01.2026 :**
Cyng. Terry Jones yn Cynnig a Cyng. Margaret Thomas yn Eilio i dderbyn y Cofnodion. **PENDERFYNWYD** derbyn y Cofnodion fel rhai cywir.

25/228 **I Ystyried Materion yn Codi o Gofnodion 19.01.2026 :**
1 Cadeirydd yn atgoffa'r Aelodau i gysylltu gyda'r Swyddfa o flaen y Cyfarfod os oes materion yn codi o'r Cofnodion uchod. Swyddog Gweinyddol yn cadarnhau fod dim cyfathrebu trwy'r Swyddfa. Ni chodwyd unrhyw fater yn ystod y Cyfarfod o dan yr Eitem uchod.

25/229 Cynllunio :

1 I Dderbyn Cofnodion Pwyllgor Cynllunio 19.01.2026 :
Cyng. Terry Jones yn Cynnig a Cyng. Margaret Thomas yn Eilio i dderbyn y Cofnodion. **PENDERFYNWYD** derbyn y Cofnodion uchod fel rhai cywir.

25/230 I Dderbyn Unrhyw Gyfathrebon Gan y Maer :
Cadeirydd yn adrodd fod dim byd o sylwedd i wneud datganiad arno yn y Cyfarfod heno.

25/231 Materion yn Codi Gan Aelodau :

1 Cyng. Non W. Parry - Stryd y Cae : Oherwydd bod Cyng. Non Parry wedi ymddiheuro am Gyfarfod heno, bydd yr Eitem yma yn cael ei ohirio tan y cyfarfod nesaf ar 9fed o Fawrth 2026.

25/232 Adroddiad y Clerc :
Oherwydd sefyllfa'r Clerc, nid oes Adroddiad i'w chyflwyno :
Gofynnodd Cyng. Bebb sut oedd y Clerc erbyn hyn. Atebodd y Cadeirydd y bydd datblygiadau yn cael eu hadrodd yn y Cyfarfod nesaf ar 9fed o Fawrth 2026. Dim trafodaeth bellach.

1 Wefan - Cwmni Delwedd : Adroddodd y Swyddog Gweinyddol am y Wefan newydd a gofynnodd i'r Aelodau a oeddent yn fodlon cael tynnu eu lluniau i'w cynnwys ar y Wefan. Dim gwrthwynebiad gan yr Aelodau, Cyng. Geraint Bebb yn Cynnig a Cyng. Margaret Thomas yn Eilio i symud ymlaen ar hyn. **PENDERFYNWYD** trefnu'r sesiwn tynnu lluniau o flaen y Cyfarfod Llawn nesaf, Nos Lun 9fed o Fawrth 2026.

25/233 Adroddiadau Pwyllgorau Allanol :

1 Un Llais Cymru : Cyfarfod Pwyllgor Ardal Ynys Môn 20.01.2026 - Cofnodion yn Atodol - er gwybodaeth; **Cyfarfod Blynyddol 21.01.2026 :**

2 Fforwm Cyswllt Cynghorau Thref a Chymuned – Cyfarfod 04.02.2026 – Cofnodion Cyfarfod 20.10.2025 yn Atodol – er gwybodaeth.

3 "**North and Mid Wales Association of Local Councils" –** Cofnodion Cyfarfod 09.01.2026 yn Atodol – er gwybodaeth.
Enwebu Cynrychiolydd : Cyng. Margaret Thomas yn awgrymu fod y Cadeirydd a benodir yn flynyddol yn cynrychioli'r Cyngor Tref a mynychu'r Cyfarfodydd Chwarterol. **PENDERFYNWYD** derbyn cynnig Cyng. Thomas a rhoi gwybod i'r Mudiad.

4 Digwyddiad ar y Cyd Un Llais Cymru a Chymorth Cynllunio Cymru 19.03.2026 - Er gwybodaeth;

25/234 Cyllid :

1 I Dderbyn Mantolen Ariannol Mis Ionawr 2026 :
Swyddog Gweinyddol yn cadarnhau na chodwyd unrhyw gwestiynau trwy'r Swyddfa ynglŷn â'r uchod, o flaen y Cyfarfod.
Gofynnodd Cyng. Bebb ar gyfer pa adeilad oedd yr Adroddiad "Asbestos" - Cyng. Margaret Thomas yn adrodd fod ar gyfer gwaith i'r Ystafelloedd Newid, Lon Newydd, a'i fod yn angenrheidiol cyn i'r Trydanwyr gychwyn gwaith ar y safle. Cyng. Thomas yn cadarnhau fod dim Asbestos o fewn yr adeilad ac erbyn hyn fod y gwaith trydan wedi'i gwblhau. Dim trafodaeth bellach.
Yn dilyn o'r uchod, Cyng. Margaret Thomas yn Cynnig derbyn y Fantolen Ariannol. **PENDERFYNWYD** derbyn Mantolen Ariannol Mis Ionawr 2026.

25/235 Adroddiad Misol Cyngor Sir Ynys Môn :
Cynghorwyr Nicola Roberts a Dylan Rees yn adrodd ar y canlynol :

- Pwyllgor Gwaith yn trafod Polisi Ymgynghori;
- Cyllideb Derfynol Treth y Cyngor - Codi 5.1% - mynd o flaen y Pwyllgor Gwaith;
- Ymgynghoriad Ailgylchu a Gwastraff yn dod i ben 17.02.2026;
- Llongyfarch y Cyngor Tref a Môn Actif ar ddatblygiad y llecyn tir ger Maes Chwarae Plas Tudur - Cais Cynllunio ar gyfer y Pitch MUGA yn cael ei drafod;
- Isetholiad Ynys Cybi - Ymgeiswyr cyntaf Reform wedi'i ethol;
- Stryd y Bont - gosod Pibellau Nwy - "Wales & West Utilities" ar y blaen gyda'r gwaith a nodwyd fod Maes Parcio Canol y Dref am ddim nes mae'r gwaith wedi cwblhau er mwyn cynorthwyo'r busnesau lleol - unrhyw broblem neu gŵyn parcio i gysylltu gyda'r Cyngor Sir.

Cadeirydd yn diolch i'r Cynghorwyr am eu hadborth.

25/236 Gohebiaeth a Materion Newydd :

1 Polisi Drafft - Strategaeth a Chynllun Gweithredu Bioamrywiaeth - Cyngor Tref Llangefni:Y Ddyletswydd Adran 6 - Un Llais Cymru : Cadeirydd yn adrodd fod yr Aelodau wedi derbyn y dogfennau uchod o fewn Pecyn y Rhaglen Llawn. Cyng. Nicola Roberts yn dwyn sylw a oes cynllun wedi'i fapio ar gyfer bioamrywiaeth o fewn cylch gorchwyl y Cyngor Tref gan gynnwys cynllun datblygiad y Fynwent Newydd er mwyn galluogi cyfraniad gan ffynonellau eraill. Yn dilyn trafodaeth, Cadeirydd yn adrodd bydd y Cyngor Tref yn edrych ar hyn fel rhan o gynllun gwaith a derbyniwyd y Polisi Drafft fel man cychwyn.

2 Cyngor Sir Ynys Môn - Cynllun Gwelliannau Seilwaith Bws Arfaethedig, Ystâd Ddiwydiannol, Llangefni - e-bost 02.02.2026 : Aelodau wedi derbyn e-bost o fewn Pecyn y Rhaglen Llawn yn manylu ar y gwelliannau arfaethedig uchod.
Ar gychwyn yr Eitem, Cyng. Alwyn Parry yn Datgan Diddordeb. Cadeirydd yn adrodd, oherwydd gwybodaeth Cyng. Parry am y Prosiect, ni welodd fod dim byd o'i le iddo gyflwyno cefndir ychwanegol i'r Aelodau. Aelodau yn fodlon ar hyn a bu Cyng. Parry roi crynodeb o'r Prosiect ac yn esbonio bydd dwy gysgodfa newydd yn cael eu gosod ac yn awyddus derbyn sylwadau'r Cyngor Tref cyn symud ymlaen gyda'r cynlluniau. Cyng. Terry Jones yn dwyn sylw fod fandaliaeth wedi'i wneud i baneli Perspex y gysgodfa ar Stryd yr Eglwys a'r gost i'r Cyngor Tref archebu ac ail-osod paneli newydd. Trafodwyd bydd y paneli yn y cysgodfeydd bws newydd o strwythur cryfach, sef "Polycarbonate" gyda mainc tu mewn. Cyng. Nicola Roberts yn dwyn sylw fod y cynllun o fewn cyllideb grant ac yn arbed costau archebu'r cysgodfeydd i'r Cyngor Tref. Yn dilyn o'r uchod **PENDERFYNWYD** cefnogi uwchraddio'r seilwaith bws arfaethedig ar y Stad Ddiwydiannol drwy gynllun y Cyngor Sir.
Cyng. Alwyn Parry yn ychwanegu bydd gwelliannau yn cael eu gwneud i'r llwybrau cyfagos o fewn y Prosiect hefyd. Dim trafodaeth bellach.

Cadeirydd yn diolch i'r Aelodau am eu mewnbwn

25/237 Gohebiaeth : Er Gwybodaeth :
Materion wedi'u hanfon trwy e-bost yn ystod Mis Ionawr 2026 :

1 Un Llais Cymru - Derbyn
2 Materion Eraill - Derbyn

25/238 I Ystyried Unrhyw Fater Brys gan y Maer :

1 Cadeirydd yn adrodd fod dim byd i godi ar hyn o bryd.

2 **Cronfa Gwelliannau :** Cyng. Nicola Roberts yn datgan fod arian o fewn cronfa i wneud gwelliannau o gwmpas y dref gyda'r cynllun yn dod i ben yn ystod Mis Awst 2026. Cyng. Margaret Thomas yn adrodd fod y Cyngor Tref yn ymwybodol o hyn ac yn gweithio ar y cyd gyda'r Cyngor Sir.

3 **Hwb Ieuenctid yn Llangefni :** Adroddodd Cyng. Dylan Rees, mewn Cyfarfod diweddar o'r Hwb Ieuenctid, soniwyd bod ymholiadau wedi'u gwneud gyda'r Cyngor Tref ynghylch defnyddio eu hadeilad ar gyfer Hwb i'r ieuenctid. Cyng. Margaret Thomas yn adrodd fod croeso iddynt ddefnyddio'r ystafelloedd ar y llawr cyntaf ond fod y Swyddfa ar y llawr gwaelod ddim ar gael i'r defnydd yma. Dim trafodaeth bellach.

25/239 Dyddiad y Cyfarfod Nesaf : Nos Lun 9fed o Fawrth 2026

7.00y.h. Diwedd y Cyfarfod

CYNG. J. EGRYN LEWIS
CADEIRYDD